

# YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN



## Polisi Amddiffyn Plant

### Am y polisi hwn

*Sicrhau diogelwch holl randdeiliad sydd ynghlwm â'r Ysgol*

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar Addysg Môn.

## Hanes Adolygu.

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau	Dyddiad Derbyniwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr
1.0	Medi 2017	Polisi Newydd	9/10/17

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Hydref 2018	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn:	Flynyddol
Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan:	Pennaeth

**Manylion Cyswllt: Mr D Hood**

**Ysgol Gynradd Llandegfan**

**Llandegfan**

**Ynys Môn**

**LL59 5UW**

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ynys Môn



Delyth Molyneux

Pennaeth Dysgu:

Gwyneth Hughes

Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr ALL:

Mawrth 2014

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn Plant mewn sefydliadau addysgol ar Ynys Môn. **Nid yw** hwn yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

# Cynnwys

Teitl	Tudalen rhif.
Cyflwyniad	3
Egwyddorion Allweddol ar gyfer yr arfer dda mewn gofal plant a phobl ifanc	4
Datganiad Polisi	5
Gweithdrefnau Amddiffyn Plant	6 – 23
Rhaglen Hyfforddi	24
Atodiad 1 – Model o Bolisi Amddiffyn Plant ar gyfer ysgolion	25 – 26
Atodiad 2 – Categoriâu o Ddiogelu Hyfforddiant	27 – 29
Atodiad 3 -- Nodiadau Arweiniol i Lywodraethwyr Ysgol	30

## Manylion Cyswllt Allweddol

Ar gyfer holl ymholiadau a phryderion yn ymwneud ac amddiffyn phlant a theuluoedd ar Ynys Môn, cysylltwch a'r gwasanaeth Teulu Môn. Gweler y manylion isod.

**Teulu Môn: 01248 725 888 (08:45 – 17:00 Dydd Llun i Dydd Gwener)**

**Tu allan i oriau: 01248 353551**

**E-bost: [teulumon@ynysmon.gov.uk](mailto:teulumon@ynysmon.gov.uk)**

## Cyflwyniad

Mae diogelu plant yn brif gyfrifoldeb pob asiantaeth.

- Mae anghenion y plentyn yn oruchaf a dylai fod wrth wraidd pob gwaith amddiffyn plant
- a datrys unrhyw wrthdaro buddiannau
- Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu potensial llawn.
- Mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei ddiogelu rhag niwed ac ecsbloetio beth bynnag fo eu:
  - hil, crefydd, iaith gyntaf neu ethnigrwydd
  - rhyw neu rywioldeb
  - oed
  - iechyd ac anabledd
  - lleoliad neu leoliad
  - unrhyw ymddygiad troseddol
  - statws gwleidyddol neu fewnfudwr
- Mae'n rhaid rhannu cyfrifoldeb am amddiffyn plant oherwydd bod plant yn cael eu diogelu yn unig pan fo pob asiantaeth ac unigolyn perthnasol yn derbyn cyfrifoldeb ac yn cydweithredu gyda'i gilydd.
- Mae'n rhaid i ddatganiadau neu honiadau am gam-drin neu esgeulustra a wnaed gan blant gael eu cymryd o ddifrif bob amser.
- Mae lles a budd y plentyn o brif bwysigrwydd ac mae'n rheidrwydd ar bawb sy'n gweithio gyda phlant sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.

Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a'r arweiniad cysylltiedig yn darparu cyngor cyson ar ddelio gyda materion diogelu dichonadwy.

Mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a'r arweiniad cysylltiedig yn gymwys i'r holl staff addysg a gyflogir gan adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn:

- Staff ysgol-seiliedig
- Staff adran-seiliedig yn yr Adran Dysgu Gydol Oes, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 LTW
- Gwasanaethau Lles Addysg
- Staff teithiol a gyflogir gan yr Adran Dysgu Gydol Oes

# Egwyddorion allweddol ar gyfer yr arfer dda mewn gofal plant a phobl ifanc

Mae'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y polisi a'r arweiniad diogelu hwn ar gyfer plant i'w cael yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Plant 2004. Maent yn cael eu hesbonio yn y dogfennau 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' a 'Chonfensiwn y CU ar iawnderau'r plentyn', y mae'r Deyrnas Unedig wedi arwyddo iddo.

Rhestrir y prif egwyddorion isod.

## **Plant:**

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu llawn botensial. Dylid eu galluogi i:

- fod mor iach yn gorfforol ac yn feddyliol ag y bo modd;
- ennill y fantais fwyaf bosibl o gyfleoedd addas o ansawdd da;
- byw mewn amgylchedd diogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed;
- profi lles emosiynol;
- teimlo'n cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cefnogi gan rwydwaith o berthnasoedd dibynadwy a chariadus
- dod yn hyfedrus mewn edrych ar eu holau eu hunain ac ymdopi gyda bywyd bob dydd;
- bob â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain a synnwyr o hunaniaeth diogel, yn cynnwys
- hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol; a
- datblygu sgiliau a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.
- dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant:
- drin lles plant gyda'r pwysigrwydd mwyaf;
- bod yn effro i ddynodwyr posibl cam-drin ac esgeulustra;
- bod yn effro i'r risgiau y gallai camdrinwyr unigol, neu gamdrinwyr dichonadwy, eu gosod i blant;
- bod yn ymwybodol o effeithiau cam-drin ac esgeulustra ar blant; a
- chyfrannu fel bo'n angenrheidiol at bob cam o'r broses ddiogelu.

## Datganiad Polisi

Mae anghenion a buddiannau plant a phobl ifanc o'r pwysigrwydd mwyaf ar Ynys Môn ac felly mae'n rhaid eu rhoi uwchben anghenion a buddiannau pawb arall. O'r herwydd, mae'n rhaid i'r polisi a'r arweiniad hwn fod â blaenoriaeth dros bob polisi a chyngor arall. Bydd yr Adran Dysgu Gydol Oes yn chwarae ei rhan mewn diogelu plant a phobl ifanc. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ein staff, drwy'r arweiniad hwn a thrwy hyfforddiant priodol, o gam-drin ac esgeulustra posibl.

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn byddwn:

- yn sicrhau, drwy hyfforddiant a datblygiad, bod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus a'u bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fo ganddynt bryderon;
- dilyn gweithdrefnau diogelu a gytunwyd yn lleol a sefydlu cysylltiadau â Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB);
- sicrhau bod y staff yn gweithredu'n gadarnhaol i ymateb i honiadau, amheuon neu ddigwyddiadau o gamdriniaeth;
- sicrhau bod sefydliadau addysgol yn gweithredu eu cyfrifoldebau mewn modd sy'n diogelu plant a phobl ifanc;
- sicrhau bod gan sefydliadau addysgol weithdrefnau diogelu yn eu lle a bod y rhain wedi eu cysylltu neu eu hadeiladu i mewn i weithdrefnau a gytunwyd yn lleol; gweithdrefnau amlasiantaethol a
- gweithio'n ymarferol gydag asiantaethau eraill i ymateb i fentrau cenedlaethol a lleol a datblygu strategaethau sydd wedi eu cynllunio i atal ac/neu leihau'r risg o gam-drin/gofal amhriodol rhag digwydd

# GWEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT



**Cyhoeddwyd gan Adran Dysgu Gydol Oes Ynys Môn, Cyngor Sir  
Ynys Môn Mawrth 2014**



## **GWEITHDREFNAU AMDDIFFYN PLANT**

### **STAFF ADDYSG**

Mae gan yr holl staff Gwasanaethau Addysg ran bwysig mewn adnabod a chyfeirio achosion honedig o gam-drin.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Plant 1989 adran 47 (1) i wneud ymholiadau, neu beri i ymholiadau gael eu gwneud, lle mae ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw, neu sydd i'w gael yn eu hardal yn dioddef, neu'n debygol (mae yn debygol yn golygu y dylai fod tystiolaeth o ffeithiau) o ddioddef niwed sylweddol.

### **ADRAN 175 Y DDEDDF ADDYSG**

Cyfrifoldeb pob sefydliad addysg unigol yw codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant ac anwythiad priodol. Mewn ysgolion dylai'r Athro Amddiffyn Plant dynodedig gymryd yr arweiniad.

Mae gan y Gwasanaethau Addysg ddyletswydd i fonitro hyn ym mhob ysgol a gynhelir a sefydliad. Dyletswydd y llywodraethwyr ydyw mewn ysgolion nas cynhelir, colegau a sefydliadau eraill. Dylai ysgolion a phob sefydliad arall fod ag Athro Amddiffyn Plant Dynodedig a hefyd Lywodraethwr Amddiffyn Plant Dynodedig i sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle ac yn cael eu dilyn.

Mae gan yr holl staff a'r gwirfoddolwyr ddyletswydd i gydweithredu gydag asiantaethau eraill mewn perthynas â materion amddiffyn plant.

### **DIFFINIAD O BLENTYN**

Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) 'Diogelu plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn esbonio mai **plentyn** yw unrhywun nad yw eto wedi cyrraedd ei 18fed pen-blwydd. Mae 'Plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc' drwy'r ddogfen honno. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi dod yn un mlynedd ar bymtheg oed, yn byw'n annibynnol, neu ei fod mewn Addysg Bellach, neu'n aelod

o'r lluoedd arfog, neu yn yr ysbyty, neu yn y carchar neu sefydliad troseddwr ifanc neu newid eu statws na'u hawl i wasanaethau neu amddiffyniad o dan y Ddeddf Plant.

## **DIFFINIAD O GAM-DRIN PLANT**

Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fydd rhywun yn peri niwed, neu'n methu atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol, gan y rhai sy'n adnabyddus iddynt, neu'n fwy anaml, gan rywun dieithr. Gall plentyn neu rywun ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustra a bod angen amddiffyniad drwy gynllun amddiffyn plant rhyngasiantaethol. Mae'r categorïau o gamdriniaeth fel a ganlyn:

### **CAM-DRIN CORFFOROL**

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldian, boddi, mygu, neu fel arall beri niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fo rhiant neu roddwr gofalu yn ffugio neu'n peri afiechyd mewn plentyn y maent yn gofalu amdano.

### **CAM-DRIN EMOSIYNOL**

Cam-drin emosiynol yw cam-drin emosiynol parhaus plentyn fel ag i beri effeithiau gwrthwynebus llym a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i blentyn eu bod yn ddiwerth neu'n ddi-gariad, yn annigonol neu'n werthfawr ddim ond cyn belled â'u bod yn cyfarfod ag anghenion rhywun arall. Gall nodweddu oed neu ddisgwyliadau amhriodol yn ddatblygiadol yn cael eu gosod ar blant. Gall beri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft, yn dystion i gam-drin yn y cartref neu gael eu bwlio, neu, ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw Lefel o gam-drin emosiynol yn gynwysedig ym mhob mathau o drin plant yn wael, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

## **CAM-DRIN RHYWIOL**

Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys gorfodi neu hudo plentyn neu rywun ifanc i gymyd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'run a yw'r plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithrediadau treiddiol neu annhreiddiol. Gallant gynnwys gweithrediadau di-gyswllt, megis cynnwys plant mewn edrych ar ddefnydd pornograffig, neu ei gynhyrchu, neu wyllo gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

## **ESGEULUSTRA**

Esgeulustra yw'r methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, cysgod a dillad digonol, yn methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu'r methiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth meddygol priodol. Gall hefyd gynnwys esgeulustra neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Yn ychwanegol, gall esgeulustra ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau.

## **ADRAN A – GWEITHREDU UNIONGYRCHOL (gweler Atodiad C)**

### **GWEITHREDU I'W WNEUD GAN YR HOLL STAFF YSGOL-SEILIEDIG (YN CYNWYS MEITHRINFYDD)**

Os bydd aelod o staff yn amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef (mae yn debygol yn golygu y dylai fod dystiolaeth o ffaith) niwed sylweddol, mae'n rhaid i'r pennaeth (neu'r dirprwy yn ei (h)absenoldeb) gael ei hysbysu'n uniongyrchol am y pryder. Os bydd disgybl yn datgelu i aelod o staff eu bod yn cael eu cam-drin

yna mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn dilyn y weithdrefn Gwneud a Pheidio â Gwneud. (Atodiad D)

1. Bydd y pennaeth neu yn ei (h)absenoldeb y dirprwy bennaeth neu dylai'r athro /athrawes d(d)ynodedig amddiffyn plant roi gwybod ar y ffôn yn ddi-oed, i'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd yn yr Adran Gwasanaethau Plant.
2. Mae'n bwysig y gwneir y cyfeirio mewn perthynas ag amddiffyn plant.
3. Dylid darparu gwybodaeth am enw, cyfeiriad, dyddiad geni plentyn, enw a chyfeiriad y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni a'r rhesymau am y pryder.
4. Dylai'r cyfeirio gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod yn defnyddio'r ffurflen 'Ffurflen Gyfeirio Gwasanaethau Plant Ynys Môn' (Gwasanaethau Plant). Dylid anfon copi at Gwyneth Hughes, Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr ALL, wedi ei nodi gyda 'cyfrinachol'. Os bydd hwn yn cael ei ebostio yna mae'n rhaid i'r ddogfen gael ei hamgryptio.
5. Os bydd y Swyddog Lles Addysg neu Nyrs yr Ysgol ar gael, mae modd y gallant gynorthwyo gydag unrhyw weithredu uniongyrchol sy'n ofynnol ond erys yn gyfrifoldeb y pennaeth i sicrhau y dilynir y gweithredu a amlinellir uchod.
6. Dylai'r Gwasanaethau Plant gynghori pa weithredu a ddechreuir, ac mae'n rhaid iddynt gynghori'r sawl a oedd yn cyfeirio yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod, ynghylch eu penderfyniad.
7. Bydd yn ofynnol yn arferol i'r cyfeiriwr ac i gynrychiolydd y Gwasanaethau Addysg fynychu unrhyw gynhadledd amddiffyn plant ddilynol ac mae'n rhaid iddynt ddarparu adroddiad ysgrifenedig p'run a ydynt yn gallu mynychu ai peidio. Mae'n rhaid i'r adroddiad fod yn seiliedig ar ffaith ac nid barn neu sôn.

## **CANIATÂD RHIENI**

Dylid bob amser ystyried cael caniatâd rhieni cyn gwneud cyfeiriad mewn perthynas â'r plentyn gydag asiantaethau eraill.

## **MAE EITHRIADAU I HYN YN CYNNWYS**

- Lle gall gweithredu o'r fath roi'r plentyn mewn mwy o berygl e.e. os yw plentyn wedi gwneud ymholiad am riant/gofalwr neu aelod arall agos o'r teulu.

- Y posibilrwydd o fygythiadau neu orfodaeth.
- Colli tystiolaeth bwysig.
- Mae'r plentyn yn gofyn am beidio â rhoi gwybod i'r rhieni.

**Y Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid y cyfeiriwr a fydd yn gwneud y penderfyniad a ddylid rhoi gwybod i'r rhieni. Bydd y rhesymau am y penderfyniad yn cael eu cofnodi'n llawn.**

## **GWEITHREDU I'W WNEUD GAN WEITHWYR YN Y GWASANAETH IEUENCTID**

### **GWEITHIWR IEUENCTID LLAWN AMSER**

1. Mae'n ofynnol i weithiwr ieuencid a wynebir â sefyllfa o argyfwng mewn perthynas â cham-drin plant honedig (e.e. rhywun ifanc mewn trallod sy'n honni ei fod/bod wedi cael ei gam-drin/cham-drin ac a allai fod mewn perygl drwy ddychwelyd adref) ymgyfeirio i'r gwasanaethau Plant yn gofyn am siarad gyda'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd. Mae'n bwysig y gwneir y cyfeiriad mewn perthynas ag amdiffyn plant. Os bydd y sefyllfa y tu allan i oriau gweithio arferol (9-5 Llun-Gwener) yna dylid cysylltu â'r gwasanaeth cymdeithasol y tu allan i oriau ar 01248 353551.
2. Mae'n bwysig rhoi gwybodaeth glir yn cynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad y plentyn, enw'r rhiant/gofalwr neu eraill gyda chyfrifoldeb rhieni a manylion clir o natur yr honiad.
3. Cyn gwneud yr ymgyfeirio dylai'r gweithiwr drafod y pryder gyda'r swyddog enwebedig amddiffyn plant yn y Gwasanaeth Ieuencid ond os na ellir gwneud cyswllt, dylai fod dim oedi mewn cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.
4. Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn debygol o gael ei osod mewn perygl pellach drwy hysbysu'r rhiant o'r honiad yna ni ddylid ceisio caniatâd rhieni i gyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol (gweler yr Adran flaenorol am gyngor).
5. Rhan 1. Mae Adran S1 o Ddeddf Plant 1989 yn datgan "bod lles y plentyn yn hollbwysig". Gan felly symud y cysyniad o gyfrinachedd os bydd plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddiodeff niwed sylweddol.

6. Mae'n rhaid i'r cyfeirio cychwynnol ar y ffôn i Adran y Gwasanaethau Plant gael ei ddilyn o fewn deuddydd gydag ymgyfeiriad ysgrifenedig wedi ei nodi 'amddiffyn plant' ar y ffurflen briodol a chopi'n cael ei anfon at y prif swyddog ieuencid gyda chopi i gydlynedd amddiffyn plant y Gwasanaethau Addysg. Os bydd yn cael ei e-bostio yna mae'n rhaid i'r ddogfen gael ei hamgryptio.
7. Mae ymateb ysgrifenedig yn ofynnol gan y Gwasanaethau Plant a dylai'r cyfeiriwr ddisgwyl derbyn hyn yn ôl o'r Gwasanaethau Plant yn datgan canlyniad y cyfeirio.
8. Gellid gofyn i'r cynrychiolydd Gwasanaeth Ieuencid perthnasol fynychu unrhyw gynhadledd achos amddiffyn plant canlyniadol.

## **ARWEINYDD IEUENCTID RHAN-AMSER A GWEITHWYR/GWIRFODDOLWYR IEUENCTID**

1. Dylai'r arweinydd ieuencid a wynebwr ag argyfwng mewn perthynas â chamdrin plant honedig ddilyn yr un gweithredu ag a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol.
2. Mae gan swyddfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol lleol neges ffôn wedi ei recordio y tu allan i oriau, yn rhoi rhif cyswllt y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd. Bydd y gweithiwr cymdeithasol wedyn yn cychwyn y gweithredu priodol.

## **SWYDDOGION LLES ADDYSG, SEICOLEGWYR ADDYSG, ATHRAWON CYNHWYSIAD, ATHRAWON TEITHIOL, CYMORTHYDDION ADDYSGU (CA), GWIRFODDOLWYR YSGOL AC UNRHYW STAFF ADDYSG ERAILL NAD YDYNT YNGHLWM WRTH YSGOLION.**

1. Os bydd y datgelu neu'r pryder yn digwydd tra byddir mewn sefyllfa ysgol, dylid rhoi gwybod i'r pennaeth yn uniongyrchol a dylid dilyn y gweithdrefnau ysgol-seiliedig (gweler Adran A).
2. Os bydd y datgeliad neu'r pryder yn 'sefyllfa y tu allan i'r ysgol' ac nad yw'r pennaeth na'r dirprwy bennaeth ar gael yna dylid dilyn yr un gweithdrefnau yn ddi-oed fel y disgrifir yn Adran A.

3. Dylai'r gweithiwr dan sylw roi gwybod hefyd i'w r(h)eolwr llinell am y gweithredu a wnaed ac anfon copi o'r ffurflen gyfeirio i Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr ALL.
4. Dylai'r cyfeiriwr hefyd, ar y cyfle cyntaf, roi gwybod i'r pennaeth am y manylion a'r gweithredu a wnaed.

## **COLEGAU ADDYSG BELLACH**

1. Os bydd aelod o'r staff yn amau bod rhywun ifanc o dan 18 oed wedi cael ei gam-drin neu y gall fod mewn perygl o gael ei gam-drin mae'n rhaid i'r Athro Dynodedig Amddiffyn Plant neu'r dirprwy yn ei (h)absenoldeb gael gwybod yn uniongyrchol am y pryder.
2. Dylai'r athro dynodedig amddiffyn plant gysylltu â'r Adran leol Gwasanaethau Plant (gweler y gweithdrefnau fel ar gyfer pennaeth/ unigolyn dynodedig ar gyfer amddiffyn plant mewn ysgolion ar Adran A).
3. Mewn achos myfyriwr sy'n parhau o oed ysgol statudol yn mynychu'r coleg, dylai'r unigolyn dynodedig ar gyfer amddiffyn plant gysylltu â'r gwasanaethau Plant lleol ac yna dilyn yr alwad ffôn gyda chyfeiriad ysgrifenedig ar y ffurflen 'Ffurflen Gyfeirio Gwasanaethau Plant Ynys Môn'. Dylid anfon copi o'r ffurflen hon at swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL, Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes Ynys Môn ac anfon copi hefyd i ysgol drigiannol y disgybl.

## **ADRAN B – LLE'R HONNIR BOD CAM-DRIN WEDI DIGWYDD YN CYNNWYS AELOD O STAFF YSGOL, COLEG, UNRHYW SEFYDLIAD ADDYSGOL ARALL NEU STAFF Y GWASANAETHAU ADDYSG**

1. Pan honnir neu yr amheuir bod disgybl wedi ei gam-drin gan aelod o'r staff, dylid dilyn y gweithdrefnau a ganlyn.
2. Dylid rhoi gwybod i bennaeth/rheolwr/ neu ddirprwy'r Gwasanaeth yn ei (h)absenoldeb yn uniongyrchol.
3. Mae'n rhaid i bob camdriniaeth a amheuir neu a honnir gael ei chyfeirio i'r Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu.

4. **“Mae’n rhaid i asiantaethau beidio ag ymgymryd â’u hymholiadau mewnol eu hunain ond mae’n rhaid iddynt gyfeirio ymlaen fel y disgrifir gwneud uchod. Mae’n rhaid i asiantaethau beidio â gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch a yw pryder sy’n cynnwys aelod arbennig o’u staff eu hunain yn fater disgyblaethol neu’n fater amddiffyn plant. Ni ddylai ystyriaethau cymhleth o’r fath ond digwydd gydag ymwneud y Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Heddlu”** (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, Rhan 4)

Dylid ceisio cyngor hefyd yn y lle cyntaf gan Gwyneth Hughes, Swyddog dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL (01248 752906). Os na fydd y swyddog dynodedig ar gael yna dylid dwysáu yn ôl y rhestr a ddarperir ar dudalen 15.

## **ADRAN C – GWEITHREDU I’W DDILYN GAN STAFF ADDYSG A STAFF MEWN YSGOLION, COLEGAU NEU SEFYDLIADAU ADDYSGOL ERAILL PAN BRYDERIR YNGHYLCH SEFYLLFAOEDD NA CHWMPESIR GAN ADRAN A A B**

1. Gall achlysuron godi pan fo staff yn pryderu bod modd nad yw’r gweithdrefnau arferol yn gymwys neu’n cael eu dilyn, e.e. os honnir bod y cam-drin yn cynnwys pennaeth, rheolwr neu uwch- aelod o’r staff.

Mewn sefyllfaoedd o’r fath dylid dilyn neu ddwysáu yn ôl y rhestr a ddarperir ar dudalen 15.

## **ANHYSBYSRWYDD PROFFESIYNOL**

Ni all proffesiynolwyr aros yn anhysbys wrth wneud cyfeiriadau, er bod aelodau o’r cyhoedd yn gallu gofyn am hynny.

Mae Syr Ronald Waterhouse, yn ei adroddiad ‘Colli mewn Gofal,’ yn amlygu cyfrifoldeb pob proffesiynolyn mewn perthynas ag amddiffyn plant:



**“Os bydd plentyn yn dioddef niwed ac y darganfyddir bod aelod o’r staff neu wirfoddolwr â gwybodaeth flaenorol o’r niwed neu debygolrwydd o’r niwed hwnnw ac wedi methu â rhoi adroddiad ohono, yna dylid ystyried gweithredu disgyblaethol”.**

## Gweithdrefnau Cyswllt

Mae angen i'r ysgol sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio a phwy i gysylltu â hwy mewn sefyllfaoedd gwahanol. Rhestrir enghreifftiau isod:

### **Pryder mewn perthynas â disgybl yn cael ei gam-drin gan staff heb fod yn staff ysgol**

Dylai disgyblion allu mynd at unrhyw aelod o'r staff

Aelod o'r staff i gyfeirio at athro/athrawes dynodedig amddiffyn plant (DCPT/ADAP).

Os na fydd y DCPT/ADAP ar gael, yna dylid hysbysu'r Pennaeth, os na fydd y Pennaeth ar gael yna cysyllter â Teulu Môn - Tîm Dyletswydd y Gwasanaethau Plant [01248 725888](tel:01248725888)

### **Pryder mewn perthynas â disgybl sy'n cael ei gam-drin gan aelod o'r staff**

Yr aelod o'r staff gyda'r pryder i gyfeirio at yr Athro Dynodedig Amddiffyn Plant.

Os nad ydynt ar gael, yna dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth. Os nad yw'r Pennaeth ar gael yna dylid hysbysu Gwyneth Hughes, Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL [01248 752908](tel:01248752908) ([argyfwng 0758430 2562](tel:07584302562)) a'ch Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Os na fydd swyddog Dynodedig yr ALL ar gael yna dwysewch eich pryder:

Pennaeth Dysgu Delyth Molyneux [01248 752922](tel:01248752922) ([Argyfwng 07917395837](tel:07917395837))

Fodd bynnag ni ddylai'r broses hon oedi prydlondeb cyfeirio.

[Teulu Môn - Gwasanaethau Tîm Dyletswydd Plant 01248 725888](tel:01248725888)

### **Pryder mewn perthynas â disgybl yn cael ei gam-drin gan y DCPT/ADAP**

Aelod o staff gyda'r pryder i gyfeirio at y Pennaeth. Os nad yw'r Pennaeth ar gael yna dylid

hysbysu Gwyneth Hughes, Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL [01248 752908](tel:01248752908)

([argyfwng 0758430 2562](tel:07584302562)) a'ch Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Os na fydd swyddog Dynodedig yr ALL ar gael yna dwysewch eich pryder:

Pennaeth Dysgu Delyth Molyneux [01248 752922](tel:01248752922) ([Argyfwng 07917395837](tel:07917395837))

Fodd bynnag ni ddylai'r broses hon oedi prydlondeb cyfeirio.

[Teulu Môn - Gwasanaethau Tîm Dyletswydd Plant 01248 725888](tel:01248725888)

### **Pryder mewn perthynas â phlentyn yn cael ei gam-drin gan y Pennaeth**

Yr aelod o staff gyda'r pryder i gyfeirio at yr Athro Dynodedig Amddiffyn Plant

Os nad yw'r ADAP ar gael yna dylid hysbysu Gwyneth Hughes, Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL [01248 752908](tel:01248752908) ([argyfwng 0758430 2562](tel:07584302562)) a'ch Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Os na fydd swyddog Dynodedig yr ALL ar gael yna dwysewch eich pryder:

Pennaeth Dysgu Delyth Molyneux [01248 752922](tel:01248752922) ([Argyfwng 07917395837](tel:07917395837))

Fodd bynnag ni ddylai'r broses hon oedi prydlondeb cyfeirio.

[Teulu Môn - Gwasanaethau Tîm Dyletswydd Plant 01248 725888](tel:01248725888)

### **Pryder ynghylch disgybl yn cael ei gam-drin gan y Pennaeth/ a'r DCPT/ADAP**

Ddylid hysbysu Gwyneth Hughes, Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yr ALL [01248 752908](tel:01248752908)

([argyfwng 0758430 2562](tel:07584302562)) a'ch Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Os na fydd swyddog Dynodedig yr ALL ar gael yna dwysewch eich pryder:

Pennaeth Dysgu Delyth Molyneux [01248 752922](tel:01248752922) ([Argyfwng 07917395837](tel:07917395837))

Fodd bynnag ni ddylai'r broses hon oedi prydlondeb cyfeirio.

[Teulu Môn - Gwasanaethau Tîm Dyletswydd Plant 01248 725888](tel:01248725888)

Yr egwyddor flaenaf yw na ddylid gosod plant mewn perygl drwy drafod gyda'r rhai a weithredir yn y cyfeirio. Dwyseir achosion unigol fel y bo'n briodol. Dylid cyfeirio unrhyw sefyllfa lle mae risg uniongyrchol o niwed sylweddol i blentyn, a lle'r ystyrir bod gweithredu uniongyrchol yn ofynnol, at yr Heddlu.

## **ATODIAD A**

### **RHAN Y CYDLYNYDD AMDDIFFYN PLANT /ATHRO DYNODEDIG/ ATHRAWES DDYNODEDIG/AELOD O STAFF DYNODEDIG**

#### **Cylchlythyr 52/95, 'Amddiffyn Plant rhag cam-drin: Rhan y Gwasanaeth Addysg'**

Mae'n ei gwneud yn glir y dylai pob ysgol a choleg fod ag aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu materion amddiffyn plant ac yn arbennig gysylltu ag asiantaethau eraill. Mae gan yr unigolyn hwn hefyd ran allweddol mewn monitro gweithredu cynlluniau Amddiffyn Plant (ôl-gofrestru amddiffyn plant), yng nghydestun eu cyfleuster ysgol.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion a sefydliadau addysg eraill mewn diffinio'n fwy eglur y cyfrifoldebau a ddisgwylir gan yr unigolyn dynodedig mae'r manylion a ganlyn wedi eu hamlinellu. Ni olygir i'r wybodaeth hon fod yn derfynol a dylid ei ystyried o fewn cyd-destun ehangach a amlinellir yng Nghylchlythyr 52/95, y (ddogfen 'Gweithio gyda'n Gilydd' o dan Ddeddf Plant 2004). Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Phrotocolau Lleol y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.

#### **YSTYRIAETH GYFFREDINOL**

Mae amddiffyn plant yn fater difrifol, yn arbennig ar gyfer y rhai a all fod yn ddioddefwyr, yn ddioddefwyr posibl neu'n ymwneud â chefnogaeth. Yn aml nid yw sefyllfaoedd yn ymddangos eu bod yn 'ddu neu wyn' ac mae tensiynau'n aml yn bodoli rhwng asiantaethau.

Mae'n hanfodol weithiau felly y dylai'r sawl a enwebwyd neu a benodwyd fod â;

- a) Dealltwriaeth glir o bwysigrwydd amddiffyn plant a rhan yr ysgol neu gyfleuster yn y broses hon.
- b) Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag asiantaethau eraill a'r gallu i werthfawrogi pob persbectif perthnasol.

- c) Y gallu i berthnasu'n dda â disgyblion, rhieni a chydweithwyr er mwyn ennill eu hyder.
- d) Hynafedd neu adnabyddiaeth digonol o fewn yr ysgol/cyfleuster er mwyn gweithredu ar ran y sefydliad ac mewn rhai eithriadau dod â newid os bydd yn ofynnol.
- e) Parodrwydd i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant, yn arbennig drwy hyfforddiant a thrwy wybodaeth sydd ar gael mewn arweiniad sydd ohoni ac arweiniad pellach.

### **Yn benodol dylai rhan y cydlynwr/unigolyn dynodedig gynnwys:**

Wedi derbyn hyfforddiant mewn sut i adnabod camdriniaeth a gwybod pan fo'n briodol cyfeirio achos, ynghyd â chael gwybodaeth weithio o'r modd y bydd byrddau diogelu plant lleol yn gweithredu a chynhadledd achos amddiffyn plant yn cael ei harwain ac yn gallu mynychu'r rhain a chyfrannu atynt yn effeithiol pan fo'n ofynnol gwneud hynny;

Gweithredu fel ffynhonnell cyngor, cefnogaeth ac arbenigedd o fewn yr ysgol a bod yn gyfrifol am gydlynu gweithredu mewn perthynas â chyfeiriadau drwy gysylltu â'r gwasanaethau Plant ac asiantaethau perthnasol eraill dros achosion o gam-drin a honiadau o gam-drin, mewn perthynas â phlant ac aelodau o staff;

Eu gwneud eu hunain (ac unrhyw ddirprwyon) yn adnabyddus i bob aelod o staff yr ysgol a sicrhau bod yr aelodau o staff hynny wedi cael hyfforddiant mewn amddiffyn plant perthnasol i'w hanghenion a'u bod yn gallu adnabod unrhyw bryderon sydd ganddynt a rhoi adroddiad amdanynt i'r athro dynodedig cyn gynted â'u bod yn codi;

Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff fynediad i Bolisi Amddiffyn Plant yr ysgol a'u bod yn ei ddeall. Mae hyn yn hanfodol mewn perthynas â staff sydd efallai'n rhan-amser neu weithio gyda mwy nag un ysgol er enghraifft ymgynghorwyr personol Gyrfa Cymru neu athrawon dan hyfforddiant;

Cysylltu â'r Pennaeth (lle na lenwir y rhan hon gan y Pennaeth) i roi gwybod iddo/iddi am unrhyw faterion ac ymchwiliadau parhaus a sicrhau bod rhywun yn eu lle bob amser ar gyfer eu rhan;

Sicrhau bod Polisi Amddiffyn Plant yr ysgolion yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu'n flynyddol a gweithio gyda'r corff llywodraethu mewn perthynas â hyn;

Paratoi adroddiad monitro blynyddol ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol a'r ALL (ffurflen adrodd ar gael gan Gydlynnydd Amddiffyn Plant yr ALL)

Gallu cadw cofnodion ysgrifenedig manwl a chywir o gyfeiriadau/pryderon;

Sicrhau bod rhieni'n gweld copïau o'r Polisi Amddiffyn Plant sy'n tynnu eu sylw at y ffaith y gellir gwneud cyfeiriadau a rhan yr ysgol yn hyn i osgoi gwrthdaro yn ddiweddarach;

Cael mynediad i adnoddau a mynychu unrhyw gyrsiau hyfforddi perthnasol neu loywi a chael hawl i'r amser angenrheidiol i lenwi'r rhan hon;

Lle mae disgyblion yn gadael cofrestr yr ysgol sicrhau bod eu ffeil amddiffyn plant yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol newydd cyn gynted ag y bo modd ac yn cael ei chadw ar wahân i brif ffeil yr ysgol.

Cysylltu ag asiantaethau eraill dros achosion o gam-drin honedig a thrwy weithio'n gydweithredol yn cynnwys mynychu cynadleddau amddiffyn plant amlasiantaethol.

Sicrhau bod y swyddog Gwasanaeth Addysg amddiffyn plant dynodedig yn ymwybodol o unrhyw dorri i lawr mewn cyfathrebu neu broblemau gyda gweithredu gweithdrefnau lleol.

Sicrhau bod trefniadau monitro parhaus yn bodoli ar gyfer plant sydd wedi bod yn destun pryderon cam-drin plant ac y mae eu henwau wedi eu gosod ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai hyn gynnwys rhoi gwybod i'r gwasanaethau plant a'r Gwasanaeth Lles Addysg am ddisgybl ar y gofrestr amddiffyn plant sydd wedi ei eithrio o'r ysgol neu os oes absenoldeb heb ei esbonio o fwy na dau ddiwrnod mewn hyd o'r ysgol (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)

## **ATODIAD B**

### **RHAN SWYDDOG AMDDIFFYN PLANT DYNODEDIG YR AALL**

Mae'n ofynnol i bob AALL fod â Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig– Gwyneth Hughes y Swyddog Ysgolion ydyw ar hyn o bryd.

Mae'r swyddog hwn yn gyfrifol am:

- Fod yn aelod o'r is-grwpiau LSCB i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu i sefydliadau addysgol a'u bod yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau i bolisiâu a phrotocolau.
- Trefnu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff addysg
- Cefnogi ysgolion a chynnig arweiniad ar unrhyw faterion amddiffyn plant
- Monitro ysgolion yn unol ag Arweiniad LLC

Diogelu Plant mewn Addysg - Rhan yr awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002 (Ebrill 2008) Rhif Cylchlythyr Arweiniol: 05/2008

Meysydd eang o Gyfrifoldeb ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr Awdurdod Lleol.

### **Monitro**

- gweithdrefnau a pholisiâu yn cydymffurfio ym mhob ysgol;
- unigolion a ddynodwyd gan ysgolion ynghyd â'u cofnod hyfforddiant;
- llywodraethwyr dynodedig ysgolion ynghyd â'u cofnod o hyfforddiant;
- cyfraniad i waith LSCB a grwpiau sicrwydd ansawdd; cyfeiriadau i Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol (niferoedd, ansawdd ac ymateb);
- lefel gweithgaredd amddiffyn plant o fewn ysgolion a chysylltiadau â hyfforddiant a dderbyniwyd;
- presenoldeb mewn cynadleddau achos;
- plant ar y gofrestr amddiffyn plant;
- cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, gweithdrefnau neu safonau LSCB;
- gweithredu argymhellion Arolygon Achosion Difrifol neu gyffelyb; a
- defnyddio ataliaeth.



## ATODIAD D - DATGELU / YMHONIAD O GAM-DRIN

Pe bai unigolyn ifanc yn datgelu ei fod ef/bod hi wedi cael neu yn cael ei gam-drin/cham-drin, mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gael ei hestyn ymlaen. Os bydd unigolyn ifanc yn datgelu camdriniaeth, dylai'r aelod o staff:

<b>GWNEUD</b>	<b>PEIDIO Â/AG</b>
Gwranddo ar y plentyn/ unigolyn ifanc yn hytrach na'i holi'n uniongyrchol.	Atal plentyn sy'n dwyn i gof ddigwyddiadau arwyddocaol yn rhydd.
Annog y plentyn/unigolyn ifanc i ganiatáu i rywun arall fod yn bresennol.	Dangos sioc neu anesmwythyd.
Sicrhau'r unigolyn ifanc nad ydynt i'w beio a'i bod yn iawn iddynt ddweud.	Gwarantu cyfrinachedd
Rhoi gwybod i'r plentyn/ unigolyn ifanc y bydd yn rhaid i chi estyn yr wybodaeth ymlaen.	Rhoi geiriau yng ngheg y plentyn/unigolyn ifanc.
Gwneud cofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth gan gymryd gofal i gofnodi'r amseriad, y lleoliad, personél/staff eraill yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd.	Bod ag ofn ceisio cefnogaeth i chi eich hun gan y rheolwr llinell. Fodd bynnag, nid yw'n briodol oherwydd y safon uchel o gyfrinachedd y mae'n rhaid ei gynnal mewn amddiffyn plant i drafod achosion unigol gyda chyfeillion personol neu gydnabod, a allai adnabod y teulu dan sylw.
Bod yn glir ynghylch eich sefyllfa eich hun. Rydych yn gweithio i Adran sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant a phobl ifanc.	Torri ar draws y plentyn/ unigolyn ifanc.
Cadw unrhyw ddarluniau, paentiadau ayyb, y gall y plentyn/unigolyn ifanc ei wneud i ddangos beth a ddigwyddodd iddo/iddi.	Rhoi'r plentyn/unigolyn ifanc yn agored i archwiliad torfol gan staff i wirio niweidiau ond aros yn dawel ac yn gysurus. Holi'r plentyn, gan gofio bod yn rhaid ymgymryd â'r dasg hon gan broffesiynolwyr wedi eu hyfforddi'n arbennig.



## ATODIAD E

Gwybodaeth ychwanegol o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru-Gyfan 2008:

- Yn ystod cwrs asesiad cychwynnol, os bydd y tîm Diogelu yn sefydlu nad yw plentyn o oed ysgol yn mynychu'r ysgol, dylent dynnu sylw'r Adran Gwasanaethau Addysg/Plant, a sicrhau yn y cyfamser, bod y plentyn yn destun gofal amser dydd a threfniadau goruchwyllo digonol.
- Lle bo athro/athrawes neu aelod arall o'r staff gydag achos i gredu mewn perygl o afiechyd ffug neu anogedig, neu'n destun hynny, dylai'r athro gyda chyfrifoldeb dynodedig am amddiffyn plant gael gwybod yn uniongyrchol. Megis gyda phob ffurf o niwed a amheuir, bydd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru-Gyfan yn gymwys a bydd yr athro dynodedig yn cymryd cyfrifoldeb am wneud cyfeiriad priodol i'r tîm Diogelu. Dylai pob tystiolaeth berthynol i'r pryder gael ei chadw'n ddiogel gan y gallai fod yn angenrheidiol llywio'r gwneud penderfyniadau neu gyfrannu at unrhyw ymchwiliad dilynol.
- Dylai athrawon a staff ysgol eraill beidio â gweithredu eu hymchwiliadau eu hunain na thrafod y mater gyda rhiant/rhodddwr gofal y plentyn.

## ATODIAD F

Dogfennaeth y dylem fod yn gweithio ohoni:

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru-Gyfan 2008 a ddsbarthwyd gan yr AALL.
- "Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"
- "Diogelu Plant mewn Addysg" Cylchlythyr 005/2008 Ebrill 2008
- Fframwaith Presenoldeb Cymru-Gyfan
- Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006: Gweithgareddau Rheoledig Cymru;
- Mewn Dwylo Diogel: Gweithredu gweithdrefnau amddiffyn oedolion yng Nghymru, 2000;
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02 Amddiffyn Plant: Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg;
- Cylchlythyr 52/95, 'Amddiffyn Plant rhag cam-drin: Rhan y Gwasanaeth Addysg'

Polisiau perthnasol eraill:

Polisi Cofnodion Troseddol Cyngor Sir Ynys Môn 2011 (Staff yr Adran)

Polisi Datgelu Cofnodion Troseddol Cyngor Sir Ynys Môn 2011 (Staff ysgol)

Polisi Seinio Rhybudd 2010

## Rhaglen Hyfforddi

Mae'r rhaglen hyfforddi a ddilynir gan staff o fewn y sefydliadau Addysg ac Adran Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â chanllawiau LSCB Gwynedd a Môn ar Ddatblygiad Proffesiynol parhaus (gweler Atodiad 2).

Mae hyfforddiant cyffredinol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy ddefnyddio pecyn e-ddysgu a ddarperir gan Educare mewn cydweithrediad â'r NSPCC – Rhaglen Ymwybyddiaeth Amddiffyn Plant sy'n cynnwys pedwar modiwl:

- Deall y pethau sylfaenol
- Adnabod cam-drin plant
- Cyfeirio cam-drin plant
- Materion yr Arfer Dda

Darperir hyfforddiant a dargedwyd ar gyfer athrawon Dynodedig bob dwy flynedd gan y cyfreithiwr dynodedig amddiffyn plant (adran Gyfreithiol), y Cydlynnydd Amddiffyn Plant (gwasanaethau plant) ac arweinydd y tîm dyletswydd (gwasanaethau Plant). Mae'r prif bwyslais yma ar y gyfraith, gweithdrefnau cyfeirio, cynadleddau achos, honiadau yn erbyn staff ac astudiaethau achos a'r hyn y gellir ei ddysgu.

Gall staff hefyd ennill mynediad i hyfforddiant a gynigir gan yr LSCB ar feysydd mwy arbenigol os oes lleoedd ar gael ar gyfer addysg.

Mae gan Lywodraethwyr fynediad i hyfforddiant blynyddol sy'n dilyn fformat gyffelyb i'r hyfforddiant athrawon Amddiffyn Plant dynodedig.

# Ysgol Gynradd Llandegfan

## Polisi Amddiffyn Plant

Mae Ysgol Gynradd Llandegfan yn llwyr adnabod ei chyfrifoldebau dros amddiffyn plant.

Mae ein polisi yn gymwys i'r holl staff, y llywodraethwyr ac i wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant.

Ceir chwe phrif elfen i'n polisi:

- Sicrhau ein bod yn ymarfer recriwtio diogel gyda gwirio addasrwydd staff a gwirfoddolwyr i weithio gyda phlant.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant drwy sicrhau bod yr holl staff wedi eu hyfforddi'n llawn ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth gyfeirio
- Cyfarparu plant gyda'r sgiliau sydd eu hangen i'w cadw'n ddiogel.
- Datblygu a gweithredu gweithdrefnau ar gyfer adnabod a chyfeirio achosion, neu bryderon am gamdriniaeth.
- Cefnogi disgyblion sydd wedi cael eu cam-drin yn unol â'u cynllun amddiffyn plant cytunedig.
- Sefydlu amgylchedd diogel lle gall plant ddysgu a datblygu.

Rydym yn adnabod oherwydd eu cyswllt dydd i ddydd gyda phlant, bod staff ysgolion mewn lle da i arsylwi arwyddion allanol cam-drin. Bydd yr ysgol felly yn:

- Sefydlu a chynnal a chadw amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i fynegi eu hunain, a lle gwrandewir arnynt.
- Sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni.
- Cynnwys cyfleoedd yn y cwricwlwm i blant ddatblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i adnabod ac aros yn ddiogel o gamdriniaeth.

Bydd yr ysgol yn dilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y ddogfen "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru- gyfan 2008":

- Sicrhau bod gennym athro dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth.
- Sicrhau bod gennym lywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant.
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn gwybod enw'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig ar gyfer amddiffyn plant.
- Sicrhau bod yr holl staff a'r gwirfoddolwyr yn deall eu chyfrifoldebau mewn bod yn effro i arwyddion cam-drin a chyfrifoldeb am gyfeirio unrhyw bryderon i'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig amddiffyn plant.
- Adnabod hawl pob aelod o staff a gwirfoddolwr i "seinio rhybudd" drwy gynnwys cyfeiriadau clir at y weithdrefn hon mewn dogfennaeth hyfforddiant ac ysgol.

- Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r cyfrifoldeb a osodir ar ysgolion a staff mewn materion amddiffyn plant drwy osod ei goblygiadau ym mhrosbectws yr ysgol.
- Datblygu cysylltiadau effeithlon gyda'r asiantaethau perthnasol a chydweithredu fel bo'n ofynnol gyda'u hymholiadau amddiffyn plant.
- Cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant, hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater yn uniongyrchol.
- Sicrhau y cedwir cofnodion o dan amodau dan glo, ar wahân i gofnodion addysgol y disgyblion.
- Dilyn y gweithdrefnau perthnasol lle gwneir honiad yn erbyn aelod o'r staff neu wirfoddolwr.
- Sicrhau y dilynir arferion recriwtio diogel bob amser.

Rydym yn adnabod y gall disgyblion sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dystion i gamdriniaeth ei chael yn anodd datblygu synnwyr o hunan-werth. Gallant deimlo anobaith, darostyngiad neu fai. Mae modd mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog ym mywyd plentyn. Pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol neu'n dawedog. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy:

- Y cwricwlwm
- Ethos yr ysgol, sy'n hybu amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel, sy'n gweld gwerth yn y disgybl fel unigolyn.
- Polisi ymddygiad yr ysgol, sydd wedi ei anelu at gefnogi disgyblion sydd mewn perygl. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn werthfawr ac nid i'w beio am unrhyw gam-drin.
- Cysylltiad gydag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl.
- Sicrhau lle mae disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, bod eu gwybodaeth yn cael ei throsglwyddio i'r ysgol newydd yn uniongyrchol, ac y rhoddir gwybod i weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr: Mr C Jones

Dyddiad: 9/10/17

## Atodiad 2

### Dosbarthiadau o Ddiogelu Hyfforddiant

Bydd hyn yn ddibynol ar swyddogaethau a chyfrifoldebau staff o fewn eu sefydliad. Byddant yn disgyn o fewn un neu fwy o'r dosbarthiadau a ganlyn.

#### Anwythiad

Yn rhan o'u hanwythiad dylai'r holl staff dderbyn gwybodaeth ar faterion diogelu. Bydd hyfforddiant yn tynnu sylw gweithwyr at y diffiniad o'r pedwar math o gam-drin, y prif arwyddion a'r dangosyddion, goblygiadau staff a chyfrifoldeb personol i ddiogelu plant a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os bydd gan unrhyw weithiwr bryderon.

#### Diogelu Cyffredinol (a adnabyddid yn flaenorol fel Lefel 1/ hyfforddiant sylfaenol)

Mae pob sefydliad unigol yn gyfrifol am ddarparu Hyfforddiant Dysgu a Datblygu i'w staff a'u gwirfoddolwyr. Dylai pob hyfforddiant dysgu a datblygu gyfarfod â'r safonau a'r cynnwys sy'n ofynnol. Gall y dyfnder y cwmpeisir pob maes amrywio o fewn yr asiantaethau gwahanol.

Bydd pob asiantaeth yn penderfynu ar y fformat fwyaf priodol ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant. Er y dylai diogelu gwybodaeth gael ei gynnwys mewn rhaglenni anwytho cyffredinol, mae hyfforddiant amddiffyn plant Diogelu Cyffredinol (Lefel 1) yn ofynnol i'r holl staff sydd â chysylltiad uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant.

#### Canlyniadau Hyfforddiant Diogelu Cyffredinol

Dylid cyfarfod â'r canlyniadau dysgu a ganlyn drwy gyflwyno hyfforddiant Diogelu Cyffredinol. Rhagwelir erbyn diwedd y cwrs y bydd cyfranogwyr yn gallu:

- Herio mythau a stereoteipiau cysylltiedig â cham-drin plant a'r broses o ddiogelu plant.
- Adnabod yr arwyddion a'r dangosyddion a allai godi pryderon amddiffyn plant.
- Bod yn ymwybodol o'r fframwaith gyfreithiol a'r gweithdrefnau lleol fel y maent yn perthnasu i ddiogelu plant.
- Deall eu swyddogaethau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd mewn perthynas â chofnodi a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.
- Sicrhau bod llais ac iawnderau'r plentyn yn bennaf.

#### Diogelu wedi ei Dargedu (a adnabyddid yn flaenorol fel Lefel 2/ychwanegol).

Mae'r hyfforddiant wedi ei dargedu hwn yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a'r gallu i weithio gyda'n gilydd ar y prosesau ar gyfer diogelu a hybu lles plant. Mae'n darparu cyfle i gydweithwyr o asiantaethau gwahanol ddysgu gyda'i gilydd ac archwilio ffiniau a phenbleth proffesiynol a all wahardd gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol. Bydd gan

hyfforddiant pobl ar y lefel hon radd fwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb rôl ar gyfer diogelu plant.

Mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i sicrhau bod hyfforddiant diweddarau a hyfforddiant adnewyddu ar gael. Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain.

### **Canlyniadau Hyfforddiant Diogelu Wedi ei Dargedu**

Dylid cyfarfod â'r canlyniadau dysgu a ganlyn drwy gyflwyno hyfforddiant diogelu wedi ei Dargedu. Rhagwelir erbyn diwedd y cwrs y bydd cyfranogwyr yn gallu:

- Herio mythau a stereoteipiau cysylltiedig â cham-drin plant a'r broses o ddiogelu plant.
- Adnabod yr arwyddion a'r dangosyddion a allai godi mewn pryderon amddiffyn plant.
- Bod yn ymwybodol o'r fframwaith gyfreithiol a'r gweithdrefnau lleol fel y maent yn perthnasu â diogelu plant.
- Deall eu swyddogaethau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd mewn perthynas â chofnodi a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.
- Sicrhau bod llais ac iawnderau'r plentyn yn bennaf.
- Dylai fod gan y Grŵp lefel uwch o arbenigedd a dealltwriaeth o sut i weithio gyda'i gilydd i adnabod ac asesu pryderon, a hefyd i gynllunio, ymgymryd ag ymyriadau a'u hadolygu.

### **Diogelu Arbenigol (a adwaenid yn flaenorol fel Lefel 3/4)**

Mae hyfforddiant arbenigol yn berthnasol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol/anuniongyrchol gyda phlant a'u/neu eu rhieni. Mae wedi ei anelu at staff sydd yn rhaid iddynt fod â dealltwriaeth drwyadl o weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hybu lles plant, yn cynnwys mewn sefyllfaoedd cymhleth neu ddifrifol.

Mae peth hyfforddiant ar y lefel hon ar gyfer y staff hynny sy'n goruchwylio eraill a phroffesiynolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae hefyd yn cynnwys hyfforddiant ynghylch goblygiadau Adolygiadau Achosion Difrifol.

### **Canlyniadau ar gyfer hyfforddiant Diogelu Arbenigol?**

- Herio mythau a stereoteipiau cysylltiedig â cham-drin plant a'r broses o ddiogelu plant.
- Adnabod arwyddion a dangosyddion a all godi mewn pryderon amddiffyn plant.
- Bod yn ymwybodol o'r fframwaith gyfreithiol a'r gweithdrefnau lleol fel y maent yn perthnasu â diogelu plant.
- Deall eu swyddogaethau, eu cyfrifoldebau a'u dyletswydd mewn perthynas â chofnodi a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.
- Sicrhau bod llais a hawliau'r plentyn yn bennaf.
- Dylai'r Grŵp hwn fod â lefel uwch o arbenigedd a dealltwriaeth o sut i weithio gyda'i gilydd i adnabod ac asesu pryderon, a hefyd i gynllunio, ymgymryd ag ymyriadau a'u hadolygu.

- Lefel fanwl ac uwch o ddealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar gyfer diogelu plant i gyfarfod ag anghenion eu swyddogaethau a'u cyfrifoldeb o fewn eu sefydliad eu hunain.

### **Pam rydym yn gwneud hyn?**

Fel gweithlu mae gennym ddyletswydd i weithio gyda'n gilydd i hybu a diogelu lles plant.

### **Addysg**

<b><u>Staff</u></b>	<b><u>Lefel</u></b>
Gyrrwyr/ hebryngwyr cludiant Ysgol	U
Cymorthyddion (Cefnogaeth ymddygiadol)	U
Cefnogi staff. (Ffreutur, Glanhawyr ayyb)	U
Cymorthyddion Dosbarth	U
Llywodraethwyr Ysgolion	U
Ymgynghorwyr Addysgol (Cynnal)	U / T
Athrawon	U / T
Athrawon Ymgynghorol (Cydbwyllgor A.A.A.)	U / T
Cwrselwyr Ysgol	T
Athrawon Teithiol (cefnogaeth ymddygiadol)	T
Seicolegwyr Addysgol (Cydbwyllgor A.A.A.)	T
Rheoli Canolfannau Dysgu Gwahanol	T
Llywodraethwyr Dynodedig (Diogelu)	T
Penaethiaid Ysgolion / Staff Dynodedig (Diogelu)	T / S
Swyddogion Lles Addysg	T / S
Uwch-reolaeth addysg a Gwella Ansawdd	S



## Atodiad 3 - Nodiadau Arweiniol I Lywodraethwyr Ysgol

### DIOGELU PLANT LLYWODRAETHWR AMDDIFFYN PLANT

Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn datgan: “Bydd corff llywodraethu ysgol dan gynhaliath yn gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau yr ymarferir eu swyddogaethau perthynol i ymddygiad yr ysgol gyda golwg ar ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol”.

Mae'n rhaid i Lywodraethwyr:

- Sicrhau amgylchedd ysgol diogel
- Sicrhau recriwtio staff diogel
- Sicrhau bod gan yr holl staff a'r gwirfoddolwyr hyfforddiant Diogelu/Amddiffyn Plant ar y lefel briodol
- Sicrhau bod gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant gweithredol
- Monitro ac adolygu eu polisi, eu hymarfer a'u gweithdrefnau diogelu.

Mae'n rhaid i bob corff llywodraethu fod â llywodraethwyr enwebedig ar gyfer Amddiffyn Plant i hybu pwysigrwydd Amddiffyn Plant a diogelu plant o fewn y corff llywodraethu.

#### Dyletswyddau awgrymedig

- Sicrhau bod llywodraethwyr yn gwybod lle i ddod o hyd i wybodaeth ar ddiogelu e.e. Gweithdrefnau amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd O Dan Ddeddf Plant 2004
- Bod yn gyfarwydd â chanllawiau cyfredol, am amddiffyn plant a recriwtio diogelach, a bod yn ymwybodol o newidiadau i'r rheoliadau.
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant a deall y gwahanol fathau o gam-drin plant
- Cysylltu'n rheolaidd gyda'r athro dynodedig ar gyfer amddiffyn plant (y Pennaeth yn aml), ynghylch gweithdrefnau yn yr ysgol.
- Sicrhau bod gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant gweithredol, bod y Llywodraethwyr a'r staff yn gyfarwydd ag ef a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethu llawn o leiaf yn flynyddol. Fodd bynnag, **ni** ddylai achosion unigol gael eu trafod gan y corff llywodraethu llawn.
- Sicrhau y cedwir cofnodion cywir gan yr ysgol a bod y ffeil Amddiffyn Plant yn gyfredol.
- **Sicrhau bod yr holl staff a'r llywodraethwyr yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin.**

Dylai'r Llywodraethwr Amddiffyn Plant ddeall na roddir o anghenraid fanylion o achosion unigol.

#### Hyfforddiant

Mae hyfforddiant ar gael gan yr ALL a dylai'r Llywodraethwr Amddiffyn Plant annog a hybu hyfforddiant i'r holl staff ar y lefel briodol. Bydd mynychu unrhyw ddiweddariadau hyfforddiant yn sicrhau y cedwir llywodraethwyr yn gyfredol gyda'r ddeddfwriaeth bresennol.

Cysylltiadau gwefannau

[www.anglesey.gov.uk/safeguarding-children-board](http://www.anglesey.gov.uk/safeguarding-children-board)  
[www.governorswales.org.uk](http://www.governorswales.org.uk)